# Adroddiad Arolygu

**Donna Jones**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Chwefror 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu gan fod y cyfnodau pontio dyddiol yn cydnabod anghenion unigol ac yn eu diwallu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Mae'r plant yn egnïol, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae gan y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi iddynt wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Mae'n deall y polisi rheoli ymddygiad ac mae'n rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar farn y plant ac yn parchu eu barn. Mae'n rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau chwarae a dysgu diddorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae wedi gwella'r amgylchedd chwarae dan do ac awyr agored er mwyn creu canlyniadau gwell i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn briodol o ran oedran a'u bod o ansawdd da.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i wella canlyniadau i'r plant ac mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol i fodloni'r gofynion ers yr arolygiad diwethaf. Mae'n rheoli'r lleoliad yn dda.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn mwynhau siarad am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef a'u dangos. Er enghraifft, dangosodd blentyn iau y ffordd yr oedd yn chwarae gydag offerynnau cerddorol a mwynhau chwarae wrth i'r gwarchodwr plant ganu ei hoff ganeuon. Siaradodd plentyn hŷn yn hyderus am yr hyn yr oedd wedi bod yn ei wneud yn yr ysgol y diwrnod hwnnw a'r ffordd y chwaraeodd gyda'i ffrind. Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb i geisiadau llafar a dieiriau'r plant mewn modd amserol ac mae hyn yn gwneud i'r plant deimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd ac yn dangos sut maent yn golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Ymatebodd y gwarchodwr plant ar unwaith i gais dieiriau plentyn iau am faldod pan oedd wedi blino ac o ganlyniad hynny, ymlaciodd y plentyn a gwenu wrth iddo eistedd ar ei glin.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn cydweithredu'n dda ac yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn helpu'r gwarchodwr plant i dacluso'r ystafell chwarae. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn gwrtais ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Maent yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, dangosodd plentyn hŷn sut i chwythu swigod i'w ffrind iau, ac roedd y plentyn iau yn hapus o ganlyniad hyn wrth iddo bwyntio at y swigod yn hedfan drwy'r awyr.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn fwynhau edafu ac enwi lliwiau'r gleiniau pren o wahanol siapiau. Ar ôl gorffen, dangosodd y plentyn yr hyn yr oedd wedi'i greu yn llawn balchder. Mae'r plant yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref. Er enghraifft, gwnaethant chwarae gydag amrywiaeth o nwyddau cartref wedi'u hailgylchu i ddatblygu eu chwilfrydedd naturiol. Mae'r plant yn mwynhau esgus gwneud paneidiau o de. Maent yn trefnu'r cwpanau teganau yn ofalus ac yn agor y carton llefrith sydd wedi'i ailgylchu i arllwys y llaeth dychmygol. Maent yn gwenu wrth gyflwyno cwpanaid o de i'r gwarchodwr plant. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn mwynhau gwibio i lawr y llithren a chwarae gydag amrywiaeth o gyfarpar taflu a dal. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn iau ymarfer taflu peli o feintiau gwahanol ar y glaswellt a chlapio yn llawn boddhad wrth iddo deimlo'n falch o'i gyflawniad. Roedd y plant hŷn yn mwynhau defnyddio racedi tennis i daro pêl ac ymarfer eu sgiliau cydsymud rhwng dwylo a llygaid yn dda.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibynnol yn dda. Er enghraifft, casglodd un plentyn ei focs bwyd a helpu ei hun i gwpanaid o ddŵr yfed ffres. Mae un plentyn iau yn ymarfer ei sgiliau symudedd gan wthio cerbyd gyrru bach ar draws y glaswellt. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, dangosodd un plentyn ddiddordeb mewn defnyddio gefeiliau'n ofalus i osod ffigyrau anifeiliaid bach ar y pot paru lliwiau cywir

ac enwi'r lliwiau a'r anifeiliaid yn gywir. Mae'r plant yn dysgu sut i wneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

| **Gofal** a Datblygiad | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob un o'r plant. Mae'n adnabod y plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a charedig. Mae'n gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau yn gyson.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn bodloni gofynion ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n deall ac yn gweithredu ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n dda er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n cofnodi damweiniau a digwyddiadau'n gywir ac yn sicrhau eu bod yn cael eu llofnodi gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod cyson o oriau presenoldeb y plant bob dydd fel rhan o'i harferion diogelu ehangach. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn amseroedd bwyd er mwyn datblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo bwyta'n iach ac yn darparu dŵr a llaeth ffres i'w hyfed. Mae'n gwneud yn siŵr y caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth y plant o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael preifatrwydd a bod eu hurddas yn cael ei barchu wrth newid eu cewynnau neu wrth ddefnyddio'r toiled. Mae'r gwarchodwr plant yn annog chwarae yn yr awyr agored fel bod y plant yn gallu datblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i fynegi eu hunain yn dda. Mae'n sicrhau eu bod yn rhyngweithio'n gadarnhaol yn gyson ac yn eu hannog i fod yn gwrtais ac i ddefnyddio moesau da. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr iaith y mae'r plant yn ei siarad gartref yn cael ei hyrwyddo drwy gydol y dydd. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'r polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ac yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith er mwyn helpu'r plant i ddysgu cymryd eu tro, rhannu, cydweithredu a bod yn garedig gyda'u ffrindiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn ffordd ymatebol i gynllunio gweithgareddau. Mae'n gwrando ar ddewisiadau'r plant ac yn eu parchu ac yn rhoi'r cyfle iddynt gyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn llwyddiannus. Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n dechrau cofnodi arsylwadau o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud, a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn y dyfodol. Mae'n trefnu gweithgareddau chwarae a dysgu diddorol. Er enghraifft, arweiniodd y gwarchodwr plant weithgaredd paru lliwiau hyfryd a gwahodd y plant i ryngweithio drwy gydol hynny, gan adolygu eu sgiliau iaith a rhifedd. Mae'r gwarchodwr plant yn ymuno'n

llawn brwdfrydedd ar ôl i'r plant ei gwahodd i chwarae. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn yn gwrtais i'r gwarchodwr plant ei helpu i ddefnyddio raced tennis a chawsant hwyl yn cymryd eu tro wrth daro'r bêl at ei gilydd. Helpodd hyn i ddatblygu sgiliau corfforol y plentyn yn dda.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli mynediad y safle yn briodol y rhan fwyaf o'r amser, ond mae angen sicrhau y caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal drwy gydol y dydd i godi safon y gweithdrefnau diogelu. Mae'n cadw cofnod o ymwelwyr. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae wedi gwella'r asesiadau risg, ac maent yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r teithiau allan yn llawn, gan dynnu sylw at beryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i leihau risgiau posibl. Mae'r gwarchodwr plant wedi cael cynnwys newydd ar gyfer y blwch cymorth cyntaf ac mae'r eitemau hyn yn gyfredol. Mae'n goruchwylio'r plant yn dda drwy gydol eu gweithgareddau chwarae a dysgu dyddiol ac wrth eu hebrwng i'r ysgol ac o'r ysgol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwella'r ardal chwarae dan do er mwyn i'r plant chwarae'n annibynnol. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer yr ystodau oedran dan sylw. Mae'n sicrhau bod dodrefn o ansawdd da, sy'n briodol i oedran y plant, ar gael iddynt, yn ogystal â chyfarpar a theganau er mwyn ysgogi eu diddordeb a'u dychymyg. Mae'r gwarchodwr plant yn storio teganau, adnoddau a chyfarpar ar lefel isel, a chânt eu labelu'n glir â lluniau a geiriau, sy'n golygu y gall y plant adnabod yr hyn sydd yn y bocsys teganau a chael gafael arnynt yn rhwydd wrth ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef. Mae gan y gwarchodwr plant ardal ddynodedig i storio eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae'n arddangos llyfrau mewn ffordd ddeniadol, gan wahodd y plant i gymryd diddordeb ynddynt a'u darllen. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu deunyddiau a chynnyrch tŷ wedi'u hailgylchu yn dda i ddatblygu chwilfrydedd naturiol y plant. Ceir rhai adnoddau i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwella ac wedi creu ardal chwarae awyr agored hyfryd. Mae'n darparu cyfleoedd chwarae da i'r plant er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol, eu dychymyg a'u chwilfrydedd. Er enghraifft, ceir dewis o gerbydau pedlo, llithrennau, ac amrywiaeth o gyfarpar adeiladu naturiol, adnoddau dal, taflu a chyffwrdd i ddatblygu eu sgiliau cydsymud rhwng dwylo a llygaid a'u helpu i ymarfer gan ddefnyddio eu sgiliau synhwyraidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae'n gweithio'n galed ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol er mwyn helpu'r rhieni / gofalwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y lleoliad. Mae wedi adolygu ei pholisïau a gweithdrefnau gan sicrhau ei bod yn eu rhoi ar waith yn effeithiol yn ymarferol. Fodd bynnag, nid yw dyddiad yr adolygiad diweddaraf wedi cael ei gynnwys ym mhob dogfen. Gall y gwarchodwr plant ddangos ei bod yn mynd ati i roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ar waith ond nid yw wedi cyfeirio atynt yn y polisi. Mae'r polisi diogelu yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol ar gyfer Cymru. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddogfennaeth ar gael i'r rhieni / gofalwyr yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys. Mae wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth i AGC.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn am awgrymiadau'r plant, eu rhieni / gofalwyr am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r gwelliannau y gellid eu gwneud. Fodd bynnag, nid yw wedi cynnwys y sylwadau gan weithwyr proffesiynol i'w helpu i werthuso'r gwasanaeth yn llawn nac wedi amlinellu'r camau a gymerwyd i wneud gwelliannau.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd yn ôl yr angen ac mae'r gwarchodwr plant ac aelodau'r cartref yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar y cymwysterau gofal plant gofynnol ac yn brofiadol yn ei rôl wrth ofalu am blant. Mae wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant i sicrhau ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod pob un o'r systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni / gofalwyr yn effeithiol. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr am gynnydd dyddiol eu plant. Dangosodd y gwarchodwr sylwadau i ni gan y rhieni / gofalwyr. Roedd sylwadau'r rhieni / gofalwyr yn nodi bod y gwarchodwr plant yn darparu '*home from home, safe and comforting setting*', ei bod yn '*initiates good routines and structure making my child feel safe in her environment and surroundings*' ac *'Always has time to give feedback…lets me know how my child's day went'.* Dangosodd y gwarchodwr plant luniau o'r plant yn mwynhau eu hamser yn yr awyr agored, er enghraifft, mynd am dro, mynd ar y

bws lleol a mwynhau picnic. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth y plant o'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol ar gyfer newid cewynnau, a'r gweithdrefnau golchi dwylo. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau preifatrwydd i'r plant pan fydd yn rhoi gofal personol iddynt. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod polisi newid cewynnau ar waith sy'n ystyried materion hylendid yn ogystal ag arferion diogelu da. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Rhaid i'r gwarchodwr plant gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn y datganiad o ddiben er mwyn sicrhau bod gan y rhieni a'r gofalwyr wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth, ac anfon copi at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). | Cyflawnwyd |
| 16 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus yn effeithiol. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn casglu barn a safbwyntiau'r plant a'u rhieni / gofalwyr yn rheolaidd am ba welliannau y gellid eu gwneud, ac yn eu rhoi ar waith, gan gynnwys y safbwyntiau hyn yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori yn ymarferol er mwyn mesur llwyddiant y gwasanaeth fel rhan o'r prosesau hyn. | Cyflawnwyd |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth greu'r polisi, mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant fod yn gyfarwydd â chanllaw statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Cyflawnwyd |
| 20 | Nid yw'r gwarchodwr plant yn gallu sicrhau nad yw'r plant yn wynebu risg o niwed posibl, am nad yw wedi sicrhau bod pob aelod o'r aelwyd sydd dros 16 oed yn meddu ar dystysgrif DBS gyfredol i wirio eu haddasrwydd. | Cyflawnwyd |
| 37 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod pob rhan o'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da er mwyn darparu cyfleoedd priodol | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | i'r plant ddatblygu eu sgiliau chwarae a dysgu a'u sgiliau corfforol yn yr awyr agored. | |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff pob system sy'n rheoli mynediad y safle ei gwirio'n rheolaidd drwy gydol y dydd i godi safon y gweithdrefnau diogelu. |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru a bod yr adolygiad diweddaraf yn cael ei gynnwys. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/11/2024